**ARGYMHELLION CYFARFOD Y PWYLLGOR DIGWYDDIADAU A GYNHALIWYD AR 27 MAI 2025**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths
Mark Thomas
Troy Maclwan
Peter Jones
David Meirion Jones
Dewi Prysor Williams
Sioned Graham-Cameron, Clerc

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, cymerodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths y gadair am y cyfarfod.

**1. Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngjhorwyr Morwenna Pugh a Gareth Davies, a chan Ellen Pugh, y Dirprwy Glerc.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw beth i'w ddatgan.

**3. Hwyl yn y Parc 2025**

Dywedodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths ei fod wedi cael manylion cyswllt dau werthwr bwyd a diddanwr arall. Dywedodd y byddai'r cysylltu gyda'r gof. Dywedodd Y Cynghorydd Dewi Prysor Williams y byddai'n gwneud ymholiadau ynglŷn â chael PA.

Dywedwyd bod angen gwneud map o'r ardal er mwyn lleoli popeth.

Dywedodd Y Cynghorydd Peter Jones y byddai'n siarad gyda'r adarwr. Dywedwyd bod angen gwirio bwcio'r marquee, ac y byddai angen symud mainc a ffens cyn y penwythnos. Byddai angen trefnu bod y gwair yn cael ei dorri cyn y penwythnos, a hysbysu'r RSPCA mai ar wair y byddai eu cerbyd a sicrhau bod hynny'n iawn. Roedd hefyd angen cadarnhau gyda'r Ysgol o ran defnyddio'r ardal tarmac.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.51pm.

DRAFT